

Pris: 50c

Papur Pawb

Ionawr 2022 Rhif 475

Siôn Corn yn dosbarthu
anrheg yn Nhrefn-ddôl.
Mwy ar ddathliadau'r Wyl
oddi mewn.



Blwyddyn Newydd Dda i'n Holl Ddarllenwyr

Cofio Eira Mawr '82

Ddeugain mlynedd yn ôl i'r mis hwn, Ionawr 1982, achoswyd anrhefn ar hyd a lled y wlad gan gawodydd trymion o eira. Roedd y ffyrdd ar gau am gyfnod hir a chyflenwadau bwyd yn brin. Holwyd rhai sy'n cofio helbulon y cyfnod a dyma rai o'u hatgofion.

"Trwch yr eira a'r lluwchfeydd sy'n sefyll yn fy nghof i", meddai Beryl Evans, fferm Glanrafon, Tal-y-bont.

"Roedd yr eira yn chwythu oddi ar y tir i mewn i'r ffordd ac roedd hi'n wastad o eira o'r caeau!" Bu teulu Glanrafon yn gaeth ar y fferm am tua 10 diwrnod ac roedd cadw'r tŷ yn gynnes a phrinder bwyd a nwyddau anghenrheidiol yn broblem. "Rwy'n cofio Richie yn cerdded lawr gyda sach i'r 'Central Stores' a dod â bwyd yn ôl ynddi ar ei gefn. Er ei bod hi'n adeg bryderus, roeddech chi'n gweld pobl yn helpu ei gilydd hefyd ac fe ddaethon ni i adnabod rhai oedd wedi symud i fyw i Gwm Ceulan yn well. Roedd rhai o'n cymdogion ni'n cerdded i'r pentre i 'nôl bwyd a bydden nhw'n galw am banded gyda ni yn Glanrafon ar eu ffordd lawr."

Un arall sy'n cofio'r cyfnod yn dda yw Evan Evans, Tynrhelyg, oedd yn ffermio yn Neuadd Fawr ar y pryd. "Roedd yr eira yn cyrraedd hyd at weiren y ffôn mewn ambell i fan ac roedd pobl yn medru cerdded dros ei ben e. Doedd dim sôn am y sietynau – roedden nhw wedi'u claddu dan eira - ac roedd defaid yn crwydro i bob man! Rwy'n cofio 'Sid the Dig' yn clirio'r heol o Dal-y-bont, heibio i Neuadd Fawr, lan am Gwm Ceulan gyda'i JCB. 'Doedd dim modd iddo fe wthio'r eira gan fod cymaint ohono fe, felly roedd rhaid iddo fe ddefnyddio bwced ôl y JCB i godi'r eira a'i ollwng e yn y caeau." Yn y diwedd, mae'n debyg bod peiriant arbennig



Y lluwchfeydd yn blocio'r ffordd fawr yn llwyr ger Maes-y-deri (llun gan y Parch. Guto Prys ap Gwynfor).

wedi cael ei ddefnyddio i chwythu'r eira dros ben y sietynau ac mai 'snowplough' o gyfeiriad Ponterwyd lwyddodd i glirio'r ffordd i gyd. "Roedden ni a nifer o ffermwyr eraill yn cael ffwdan mynd i fwydo'r anifeiliaid ac roedd eira hyd at y to yn rhai o'r storfeydd a'r siediau tu fas. Aeth pythefnos i dair wythnos heibio cyn i ni allu mynd lan i ben pellaf Cwm Ceulan."

Wrth reswm, dioddefodd ffermydd y cylch golledion stoc oherwydd amodau'r tywydd ym mis Ionawr 1982. Un sydd wedi cofnodi peth o'r hanes yw Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont. Yn ei gyfrol *Ar Buys y Ffald*, adroddodd fod yr eira wedi lluwchio i'r mannau lle'r oedd y defaid wedi mynd i gysgodi ond llwyddwyd i godi nifer ohonynt yn fyw gyda chymorth cŵn fferm Tynygraig. Roedd ganddyn nhw'r gallu rhyfeddol i farcio'r defaid oedd wedi'u claddu yn y lluwchfeydd a byddent yn crafu'r eira lle'r oedden nhw'n arogl dafad. "Gallent chwilio dafad â hanner can troedfedd o eira uwch ei phen", meddai Gwilym. "Os byddai tair neu bedair neu fwy wedi'u claddu efo'i gilydd, dim ond un fyddai'n fyw – nid oedd digon o aer i'r cyfan. Roedd yn dair wythnos union pan godwyd y ddafad olaf a hithau'n fyw. Roedd wedi medru gwrthsefyll yr elfennau trwy fwyta ei gwlân ei hun, pob tamed medrai hi gyrraedd." Collodd Gwilym fuwch, dwy ferlen a 90 o ddefaid oherwydd yr eira a gwaith digon digalon oedd yn ei wynebu wrth i'r eira glirio. "Buom am ddiwrnodau yn casglu a chladdu'r corpysau ... Diolch i'r cŵn neu mi fyddai llawer iawn mwy."

Er bod eira a rhew caled wedi tarfu ar ein bywydau nifer o weithiau ers Eira Mawr 1982 ni fu pethau cynddrwg yn yr ardal ag oeddent bryd hynny. Pe baem ni'n digwydd dioddef stormydd mawr o eira rywdro eto yn y dyfodol, roedd y rhai a holwyd yn gytûn na fyddem ni'n wynebu cymaint o drafferthion. "Erbyn heddi", meddai Beryl Evans "mae cymaint o beiriannau ar gael. Byddem ni'n medru clirio'r eira gymaint ynghynt!" Gobeithio wir na welwn ni fyth eto, gymaint o anrhefn ag a welwyd yn '82!

Mwy am yr Eira Mawr ar dudalen 7.



Dafydd Jenkins gyda'r cŵn yn arogl i'r defaid yn yr eira

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henlllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:

Cathryn Lloyd-Williams
cat_yfoel@hotmail.com

Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwys-fach/Ffwrnais:

Non Griffiths
(01654) 781264

Rhwydweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:

Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
832773

Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgriadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:

Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

Dylunio:

Iolo Ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Plygu'r Papur:

Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr:

Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones;
Carys Briddon, John Evans

Cyhoeddwyd gan
Gymdeithas Papur Pawb.
Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru.

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gwepllyr (@papurpawb)

Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn
oedd Menna, Fal a Gwyn,
gyda Ceri'n dylunio.

Diolch arbennig i Menna a fu'n
golygu ei rhifyn cyntaf a
hynny'n gwbl ddiffwdan.

Golygyddion rhifyn Chwefror
fydd Llio (lliorhys@yahoo.co.uk)
a Cathryn
(cat_yfoel@hotmail.com)

Y dyddiad cau yw 4 Chwefror
a bydd y papur ar werth ar
11 Chwefror.

Arwydd Newydd Rhyfedd



Beth wnewch chi o'r arwydd newydd ar wyneb y ffordd y tu allan i'r
Llew Gwyn Tal-y-bont? Mae angen gwersi sillafu ar ambell un,
mae'n siŵr.

Geirfa Dysgwyr

Arwydd : *Sign*

Peryglon : *Dangers*

Dathlu : *Celebrating*

Cydymdeimlo : *Sympathise*

Brysiwch wella : *Get well soon*

Y Dyddiadur

Gydâ'r cynnydd yn yr achosion o
Covid sydd wedi taro sawl teulu yn y
cylch, mae'r rhan fwyaf o
ddigwyddiadau'r wythnosau nesaf
wedi'u canslo neu eu gohirio. Gan
hynny, nid oes 'Dyddiadur' yn y rhifyn
hwn. Gobeithio y daw eto haul ar fryn
a bydd y cyfarfodydd a digwyddiadau
lleol yn ail-gychwyn cyn bo hir.

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £9.95 Dau gwsrs £11.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch
sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys
Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng
niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Neuadd Goffa Tal-y-bont

Cyfarfod Blynnyddol y Pwyllgor Rheoli

Nos Fercher 9 Chwefror
7.30 yr hwyr

Yn y Neuadd Isaf

Croeso Cynnes i aelodau hen
a newydd

Cymdeithas Sioe Tal-y-bont Cyfarfod Blynnyddol

Nos Lun 7 Mawrth 2022
8:00yh

Bwriedir cynnal y cyfarfod yn
y Neuadd Goffa ond os na
fydd yr amgylchiadau'n
caniatáu byddwn yn cwrdd yn
rhithiol.

Cysylltwch â Carol Davies
am ragor o fanylion
01970 832989 /
ysgrifenyddes@sioetalybont
show.com

Croeso cynnes i bawb!

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN



Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

Salon Leri

Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener

(01970) 832 674

Pobl a Phethe

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Einion Williams, Penrhos a Tirion Evans ar eu dyweddïad. Pob dymuniad da i chi eich dau.

Dymuniadau gorau hefyd i Barri Southgate a Jadie Fletcher, hwythau wedi dyweddïo yn ddiweddar.

Ar ddiwrnod Nadolig, cyhoeddodd Hanna Watkin, Llandre (Miss Watkin i blant yr ysgol) a Gary Evans, Llanfarian eu dyweddïad. Llongyfarchiadau!

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gyda Mrs Janet Jones, Llwynglas a'r teulu ar farwolaeth ewythr, Egryn Evans, Penrhyn-coch.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Wendy Watkin, Heulfor, Richard Jones, Ardwyn a William Jones, 2 Dôl Pistyll Tal-y-bont ar farwolaeth eu hewythr, Dafydd Evans, Ruel, Bow Street.

Collodd Mark Evans, Tŷ'n y Berllan, Tal-y-bont, hefyd ei fam ddechrau Ionawr. Cydymdeimlwn gydag ef a'r teulu.

Wrth i *Bapur Pawb* fynd i'r wasg, derbyniwyd y newyddion trist am farwolaeth sydyn Emyr Davies, Llety Ifan Hen, Bont-goch. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu oll.

Byddwn yn cynnwys teyrnged iddo yn y rhifyn nesaf.

Dr E Wynne Davies

Wrth i *Bapur Pawb* fynd i'r wasg ym mis Rhagfyr derbyniwyd y newyddion trist am farwolaeth un o feibion pentref Tal-y-bont sef Dr E Wynne Davies, Meisgyn, Pontyclun. Er iddo adael yr ardal flynyddoedd yn ôl, cadwai gysylltiad agos gyda'i deulu yma a'r gymdogaeth. Daeth yn enwog am ei arbenigedd ym maes merlod a chobiau gan lunio hunangofiant a adroddai am ei gefndir yn yr ardal hon.

Estynnwn ein cydymdeimlad arbennig i'w chwaer Ann Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont, a'r teulu oll.

Genedigaethau

Ganed wyres fach, Eiry Mai ar 6 Ionawr i Phil a Megan Mai, Gwynionnydd, Tal-y-bont. Pob dymuniad da i Hedydd ac Alun a'r fechan yng Nghaerdydd.

Ar y 7 Ionawr ganwyd mab bach i Hefin a Grace, Bwthyn Elgar, Tal-y-bont, ŵyr bach cyntaf i Mam-gu, Jennifer Evans, Neuadd Fawr, Tal-y-bont, sydd wedi gwirioni arno'n barod a gor-ŵyr i Evan Evans, Tynrhelyg. Gydag Wncwl Rhyddian ac Wncwl Sion yn byw'n lleol fydd dim prinder gwarchodwyr!

Dymuniadau gorau i'r ddau deulu.

Pen-blwydd arbennig

Dymunwn ben-blwydd hapus arbennig iawn i Monica Lloyd-Williams, Tynewydd, Bont-goch. Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r dathlu ar ddiwrnod Nadolig!

Pasio prawf gyrru

Dymuniadau gorau i Hanna Grug Evans, Cefngweiriog ar basio ei phrawf gyrru. Pob hwyl i ti y tu ôl i'r llyw!

Actorion lleol

Braf oedd gweld cip ar rai o drigolion yr ardal yn y rhaglen "Cwmni Theatr Maldwyn yn 40" a ddarlledwyd ar S4C dros y Nadolig. Gwelwyd Anwen Howard, Brynfa, Barry Jones, Llys Terfyn, Tal-y-bont a Rhian Nemes a Huw Lewis, Tre'r-ddôl yn perfformio mewn sawl cynhyrchiad gwahanol.

Brysiwch Wella

Gobeithio fod Claire Fowler, Bron y Gan, Tal-y-bont ac Eirian Evans, Garnwen, Tal-y-bont yn gwella wedi i'r ddwy gael damweiniau yn ddiweddar.

Dymuniadau gorau i Jonathan Karas, Yr Hen Ficerdy, Bont-goch, ar ôl derbyn llawdriniaeth ar ei ben-glin yn ddiweddar.

Da deall fod Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont, yn gwella'n dda yn dilyn ei llawdriniaeth ym Mronglais.



Dyma Sam Ebenezer, Maes-y-felin, Tal-y-bont, y tu allan i Theatr Sant Martin, Llundain ble mae'n actio rhan Ditectif Trotter yn y ddrama 'The Moustrap'. Pob lwc Sam a chadwa'n saff yn y ddinas fawr.





Peryglon Allt y Crib

Ychydig ddyddiau cyn y Nadolig, cyhoeddwyd rhybudd diogelwch ar dudalen facebook Cyfoeth Naturiol Cymru am y peryglon sydd wedi dod i'r amlwg yng Nghoedwig Allt y Crib. Daeth y rhybudd yn sgil adroddiadau bod tir ansefydlog o amgylch yr hen fwyngloddiau hanesyddol sydd yn y goedwig. Er mwyn diogelu trigolion yr ardal ac ymwelwyr, mae'r corff amgylcheddol yn gofyn i ni gadw at y ffyrdd a'r llwybrau sefydledig a sicrhau nad yw cŵn yn mynd yn agos i'r ardaloedd cyfyngedig.

Mae'n dda clywed bod trefniadau ar y gweill gan Gyfoeth Naturiol Cymru i ffensiō'r ardal dan sylw cyn gynted â phosib.

Tan i hynny ddigwydd, troedwch yn ofalus lan yn Allt y Crib ... a chadwch lygad ar y ci!





Ysgol Tal-y-bont

Arwyr y Byd Gwyllt

Dros yr haf roedd plant Ceredigion yn cael eu hannog i ymuno â Chynllun Arwyr y Byd Gwyllt ar gyfer yr her ddarllen blynyddol. Roedd y llyfrgelloedd wedi cydweithio gyda'r WWF i ddangos sut y gallai plant hefyd wneud gwahaniaeth i'r amgylchedd. Roedd hi'n hyfryd gweld bod cymaint o blant Ysgol Tal-y-bont wedi ymateb i'r her ac ennill medalau a thystysgrifau am eu hymdrechion.

Llywodraethwyr

Mae'r cyfnod diweddar yma wedi bod yn rhwystredig iawn i ni gyd, ac fel yr oeddem ni'n dechrau croesawu ymwelwyr yn ôl i'r ysgol, daeth ton arall o'r haint. Ond, gyda'r plant wedi hen arfer â chynnal cyfarfodydd dros TEAMS, mae cyfleoedd newydd wedi cod yn sgil hynny, ac un o'r pethau mwyaf calonogol a ddigwyddodd yn ystod mis Rhagfyr oedd cynnal cyfarfod dros y we gyda Mrs Bethan Davies, Cadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol. Roedd y plant wedi siarad yn rhugl ac yn onest gyda hi m eu profiadau yn yr ysgol yn ystod y tymor ac roedd eu clywed yn ymateb mor frwdfrydig yn sicr wedi codi calon y pennaeth! Diolch i chi gyd, mae'n siŵr y byddwn yn gwneud eto'n fuan.

Nadolig

Roeddem ni i gyd wedi gobeithio y byddai'r sefyllfa gyda Covid wedi gwella ddigon i ni gynnal ein gweithgareddau cyhoeddus arferol eleni. Ond daeth hi'n amlwg na fyddai hi'n beth doeth i dynnu pobl at ei gilydd mewn tyrfa ar hyn o bryd. Er gwaethaf hynny, roedd y staff wedi gweithio'n galed a pharatoi amrywiaeth o weithgareddau o fewn yr ysgol er mwyn cadw'r plant yn hapus ac fe gafwyd diwedd tymor digon prysur.

Aeth pob dosbarth ati'n frwdfrydig i greu gwaith gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf. Roedd plant y Cyfnod Sylfaen a phlant Cyfnod Allweddol 2 wedi treulio llawer o amser yn creu ffilmiau ac animeiddiadau difyr a diddorol. Roedd y plant hyn hefyd wedi bod yn nosbarthiadau'r cyfnod sylfaen yn dysgu'r plant sut i ddefnyddio minecraft ac roedd y plant lleiaf wth eu boddau gyda hynny. Da iawn chi – plant a staff am fod mor ddyfeisgar a chreadigol eleni eto.

Un peth y llwyddwyd i'w wneud oedd dysgu ambell garol gyda chymorth Mrs Falyri Jenkins yn cyfeilio ac rydym yn edrych ymlaen yn arw at gael gwahodd Mrs Jenkins 'nôl atom pan fydd yr amgylchiadau'n caniatáu.

Diolch o galon i Mrs Jones a Natalie am baratoi gwledd o ginio Nadolig ar ein cyfer. Ychydig iawn sydd ddim yn cael cinio ysgol yma ac mae hynny'n awgrymu'n gryf fod plant Ysgol Tal-y-bont wrth eu boddau gyda'r bwyd blasus sy'n cael ei gyflwyno iddynt – 100% a seren aur unwaith eto!

Mae cefnogi Achub y Plant yn draddodiad yma ers sawl blwyddyn bellach ac roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o'r plant a'r staff wedi gwisgo eu siwmperi Nadolig wrth godi ymwybyddiaeth o waith yr elusen ac atgoffa ni nad yw amgylchiadau plant eraill ar draws y byd yn hawdd. Penderfynodd aelodau Cyngor yr Ysgol roi gwobrau bach i'r siwmperi gorau – llongyfarchiadau i'r enillwyr!

Raffl Fawr y Nadolig

Eleni eto bu'n rhaid cynnal y raffl Nadolig ar-lein, ond doedd hynny ddim wedi amharu dim ar y brwdfrydedd. Hoffwn i ddiolch yn fawr i bawb am gyfrannu ac i aelodau gweithgar y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu. Diolch o galon i'r noddwyr am gefnogi'r ysgol – pob un yn fusnes lleol ac yn dewis ein cefnogi – gwyh!

Dyma restr o'r enillwyr:

Noddwyr	Gwobr	Enillydd
Cletwr	Hamper	Caio Lewis
Summit Cycles	Taleb £50	Osian Saunders-Jones
Jewellery House	Breichled	Elis Jones
Dawmor	MOT	Gwenno Saunders-Jones
Menna	Siwmpwr Nadolig	Kerrie Farrar
Dofednod Cwmtynant	Ffowlyn	Arthur Hughes
Cletwr	Gwin a siocledi	Mostyn Lloyd-Williams
BMO Coaching	Taleb	David Jones, Bwlchdyddwyallt
Y Lolfa	Llyfrau	Reg Jones, Eurfan
Siop Y Pethe	Taleb £10	Eirian Roberts Maes Y Deri
Libanus	Tocynnau Sinema	Joel Lewis
Ruth Jên	Bag	Nicky Byrne, Bronhaul
Ruth Jên	Bag	Mat Pownall
Ruth Jên	Calendr	Charlie Foulkes
Newmans	Planhigyn	Tara Foster
Cath LW	Gwin	Therese Woodling
Fferyllfa Tal-y-bont	Sebon	Eifiona Evans

Blwyddyn Newydd Dda i Chi Gyd!

Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth

Daeth yr aelodau ynghyd i festri Rehoboth, Tre-Taliesin, ar brynhawn Mawrth, 14 Rhagfyr, pan groesawyd Sara ac Eirlys Jenkins, Fferm Cerrig Caranau, a ddaeth i sôn am y fenter newydd o'r enw Llaeth Teulu Jenkins a gychwynnwyd ganddynt ym mis Ionawr 2021. I ddechrau, cawsom ganddynt ychydig o hanes y teulu gan sôn sut ddaeth y teulu Jenkins i Gerrig Caranau yn y lle cyntaf yn ôl yn 1875, a dangoswyd rhai hen luniau o'r teulu a'r fferm. Bu'r teulu yn enwog am fridio gwartheg duon Cymreig ar hyd y blynyddoedd gan ennill llawer iawn o wobrau a phencampwriaethau mewn sioeau amaethyddol.

Cychwynnwyd y fenter newydd gan y teulu i werthu llaeth lleol, organig, i bobl yr ardal, a phan agorodd y Cwtsh Llaeth yn yr Hen Ysgol Gymraeg yn Aberystwyth, hon oedd y fenter gyntaf o'i math yn y dre. Erbyn



hyn, rydym yn gyfarwydd â gweld y peiriannau gwerthu llaeth yn Aberystwyth a Machynlleth, ac mae modd prynu llaeth ffres organig ac ysgytlath o'r peiriannau hunanwasanaeth yma sydd ar agor bedair awr ar hugain y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Er mai menter weddol newydd yw hon, maent eisoes wedi ennill sawl gwobr ac wrth ddiolch i Eirlys a Sara am brynhawn difyr iawn dymunodd Eiriona bob llwyddiant iddynt a'u llongyfarch am fentro. I gloi, mwynhawyd te, mins peis a chacen Nadolig wedi eu paratoi gan Eiriona a Carys.

James Memorials

Am
**GOFBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT**

HUWLEWISTYRES.COM

Glanyrafon

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221**

Rhodfa'r Parc

Yr Urdd yn Gant Oed


Mae Urdd Gobaith Cymru yn dathlu ei ben-blwydd yn gant oed eleni.

Derbyniwyd y cais (gweler ar gwt yr erthygl hon) gan yr Urdd am hanes aelodau cynnar y mudiad a byddai'n braf petai modd i *Bapur Pawb* gynnwys hanesion amdanynt ac efallai ambell i lun.

Ar ben hynny mae *Papur Pawb* am ddechrau cyfres fer ar hanes yr Urdd dros y degawdau yn yr ardal hon. Byddwn yn croesawu gwybodaeth, profiadau a lluniau am eisteddfodau, ymweliadau â Llangrannog a Glanllyn, pencampwriaethau chwaraeon, gweithgareddau Aelwyd lewyrchus Tal-y-bont ddeugain mlynedd yn ôl ... a mwy.

Os am gyfrannu, cysylltwch â'r golygydd cyffredinol: (golygydd@papurpawb.com)

Dechreuwn gyda chais am wybodaeth am lwyddiant Band Taro Ysgol Eglwys-fach yn ystod yr 1950au. Dyma'r llun a ymddangosodd yn rhifyn Gorffennaf/Awst 1978 *Papur Pawb*.



Parti Band Taro Ysgol Eglwys-fach a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Abertridwr yn 1957. (Llun trwy garedigrwydd Mr. R Andrew.)

A oeddech chi (neu berthynas i chi) yn y band taro hwn? Beth yw eich atgofion? Cysylltwch â'r golygydd cyffredinol.

Mae camgymeriad yn y capsiwn gan mai yn 1955 nid 1957 y cynhaliwyd yr eisteddfod yn Abertridwr (ger Caerffili). Yn Rhydaman oedd yr eisteddfod yn 1957.

Dyma'r llythyr a ddaeth gan yr Urdd:

Cais am help i ddarganfod aelodau cyntaf Urdd Gobaith Cymru

Wrth i fudiad ieuenctid mwyaf Cymru ddathlu ei ben-blwydd yn 100 oed yn 2022, mae'r Urdd yn chwilio am rai o'r aelodau cyntaf un.

Oeddech chi neu aelod o'r teulu yn aelod o'r Urdd yn yr 1920au, 1930au neu'r 1940au?

Mae dros 4 miliwn o blant a phobl ifanc wedi bod yn aelodau o'r Urdd ers y sefydlwyd yn 1922 gan Syr Ifan ab Owen Edwards. Dyma ambell ffaith i chi o'r gorffennol:

- Sefydlwyd yr Adran gyntaf yn Nhreuddyn, Sir y Fflint yn 1922
- Cynhaliwyd yr Eisteddfod yr Urdd gyntaf yng Nghorwen yn 1929
- Cafodd Gwersyll Llangrannog ei sefydlu yn 1932 a Glan-llyn yn 1950
- Crëwyd Mistar Urdd yn 1976

Beth yw eich atgofion chi? Helpwch ni i roi straeon ac atgofion yr Urdd ar gof a chadw ar gyfer y ganrif nesaf. Cysylltwch â ni ar helo@urdd.org, 07976 330361 neu gallwch ymuno â'r grŵp Facebook 'Atgofion Aelodau'r Urdd' (www.facebook.com/Urdd100) i rannu lluniau a hanesion difyr o unrhyw ddegawd.

Cylch Meithrin Tal-y-bont

Mae staff a phlant Cylch Meithrin Talybont wedi bod yn brysur iawn drwy gydol mis Rhagfyr. Roedd y plant wrth eu bodd yn mwynhau naws yr Ŵyl wrth ganu, dawnio, peintio, coginio a gwneud crefftau Nadolig. Cafodd y plant barti bach eu hunain yn y Cylch yn ogystal a mynd am dro o gwmpas y pentref, ar fwy nag un achlysur, i weld y ffenestri Nadolig.

Ar ddechrau'r mis daeth corrach bach yn ôl i chwarae triciau ar y plant. Roeddent wrth eu bodd yn gweld beth oedd y corrach wedi bod yn ei wneud dros nos.

Bu'r plant hefyd yn siarad gyda Siôn Corn ar raglen Aled Hughes ar Radio Cymru. Braf oedd clywed y plant yn canu ar y radio ac yn rhoi Tal-y-bont ar y map.

Rydyn ni yn ffarwelio â thri o blant sy'n dechrau yn yr ysgol fawr ym mis Ionawr. Pob lwc i Tomos, Gracie a Bonnie yn Ysgol Tal-y-bont.

Gan ei bod hi wedi bod yn amhosib eleni eto i gynnal ffair a sioe Nadolig yn y Neuadd Goffa penderfynwyd cynnal raffl fawr ar lein, cystadleuaeth enwi'r dyn eira yn nhafarn Y Llew Gwyn a chyfle i ennill hampyr wrth brynu sgwar yn Salon Eleri. Codwyd £417.50 rhwng y tri ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb am eu cefnogaeth. Hoffwn hefyd ddiolch yn fawr i'r holl fusnesau lleol am gyfrannu gwobrau ar gyfer y raffl a'i wneud yn llwyddiant.

Blwyddyn newydd dda i chi gyd!

Siwan Evans



Mae Cylch Meithrin Machynlleth yn chwilio am berson addas i lenwi'r swydd isod.

Cynorthwy-ydd Achlysurol (Banc)

Cyflog: £8.91 yr awr

Oriau: Prynhawn Mercher 12:30-4:00 (am gyfnod tymor y'r Hydref gyda siawns i ymestyn i'r flwyddyn newydd) ac oriau ychwanegol achlysurol hyblyg pan fo angen; Dydd Llun, Mawrth, Mercher a Iau 08:30-4:00

Dydd Gwener 08:15-12:45

Cymwysterau: Rhaid meddu ar NVQ Lefel 2 neu uwch mewn Gofal Plant

Mae Cylch Meithrin Machynlleth yn chwilio am gynorthwy-ydd achlysurol dibynadwy ac egniol sy'n mwynhau gweithio fel rhan o dîm i ymuno â staff y cylch. Dylai ef/hi fod yn rhugl yn y Gymraeg neu yn ddysgwyr sydd wedi cyrraedd lefel uchel yn y Gymraeg.

Am ragor o wybodaeth a manylion pellach cysylltwch â

Caryl - EdwardsC705@hwb.cymru.net neu Tamsin - Tecd29@hotmail.com

Papur Pawb ac Eira Mawr '82

Roedd *Papur Pawb* hyd yn oed yn dioddef o ganlyniad i'r eira gan nad oedd modd ei argraffu ar amser er y rhoddodd hynny gyfle i gynnwys atodiad a lluniau o effaith yr eira ar y gymuned. Dyma'r erthygl a ymddangosodd yn yr atodiad:

"Yn waeth na 1947", dyna yw y farn gyffredinol ar y storm o eira a ddaeth ag anrhefn llwyr i'r ardal hon, ac i weddill Cymru, ar ddydd Gwener, 8 Ionawr. Erbyn heddiw, 14 Ionawr, mae pethau'n gwella'n raddol ond mae llawer o ffyrdd yn dal i fod ar gau a'r eira yn gorwedd mewn twmpathau ar ochr y strydoedd ym mhob pentref yn y cylch. Fe fydd yn wythnosau cyn i'r eira glirio i gyd ac i bawb i gyfri'r gost.

Daeth y storm yn ddisymwth yn gynnar ar fore Gwener, 8 Ionawr. Aeth llawer i'r gwaith i Fachynlleth neu Aberystwyth yn ôl eu harfer a darganfod wedi hynny ei bod yn amhosibl iddynt ddychwelyd i'w cartrefi erbyn y prynhawn. Syrthiodd eira trwm a chwythai'r gwynt yn ddi-baid gan achosi lluwchfeydd anferth. Bu raid i lawer adael eu ceir ar y ffordd fawr a gorchuddiwyd llawer ohonynt gan luvch o eira. Roedd y lluwchfeydd yn cyrraedd lan i oddeutu 15 troedfedd mewn rhai mannau ac yr oedd yn rhaid i rai bobl gerdded adref ar hyd y cloddiau.

Bu rhai gwirfoddolwyr allan yn nannedd y gwynt ar brynghawn Gwener i gynnig help i'r henoed ond yn y pen draw bu raid gohirio'r gwaith o glirio eira tan y bore canlynol. I waethygu'r sefyllfa, torrwyd y cyflenwad trydan ar nos Wener hyd at amser cinio ddydd Sadwm. Yr hyn sydd i ddilyn yw rhai o ddigwyddiadau'r ardal yn unig.

Ym mhlwy Sguborycoed fe rewodd rannau helaeth o'r afon Ddyfi ac y mae talpiau anferth o rew yn dal i orwedd ar y glannau. Dioddefodd brodorion Cwm Einion yn waeth na neb gyda'r lluwchfeydd. Bu raid i hofrennydd gludo Mrs Anna Evans i Ysbyty Machynlleth gan ei bod yn dioddef o 'hypothermia'. Roedd Mrs Evans wedi ei hynysu yn ei chartref heb wres am oriau maith. Yn Ffwrnais bu Mr John Thomas, Y Garej, yn casglu ac yn dosbarthu bara a llaeth yn ei landrover dros y penwythnos ac fe gerddodd deg o bobl i Dre'r ddol ar y dydd Sadwrn i gasglu llaeth.

Gwelwyd ysbryd tebyg ym mhlwy Llangynfelyn hefyd. Bu perchnogion Dolcettwr a Thrwyn -y-buarth (Dyfi Valley) yn dosbarthu llaeth am ddim ar y dydd Sul. Roedd lori laeth wedi ei dal yn yr eira ger Llys Terfyn a bu Mr Peter Manley a chriw o wirfoddolwyr yn cario'r llaeth i Dal-y-bont. Nid oedd papurau newydd (na hyd yn oed Papur Pawb!) am ddiwrnodau. Gostyngodd y stoc o gyffuriau yn y fferyllfa yn gyflym lawn ond roedd digon i bawb a oedd mewn angen. Serch hynny, ni ddaeth y llwyth o gyffuriau a ddisgwyld o'r Amwythig ar ddydd Mawrth gan nad oedd y fan yn medru mynd yn bellach na Llanidloes. Sgwn i faint ohonoch a fyddai'n medru dyfalu beth a werthodd orau yn y fferyllfa? Wel yr ateb yw ffilmiau i'r camera.

Bu bobl yn prynu bwydydd parod fel tuniau cig, ffa a chawl yn y 'Central Stores' yn sgil y toriad yn y cyflenwad drydan. Yn ogystal roedd bwydydd megis cig moch, llaeth, sosej, menyn a llysiau (a hefyd papur ty bach!) wedi eu gwerthu o fewn oriau ar y dydd Sadwrn. Ond ar y Sul daeth cyflenwad annisgwyl o fara pan gyrhaeddodd fan o'r Ideal Bakery yn Aberystwyth yn cael ei yrru gan Meirion Jones. Bu'n rhaid dogni siwgr, menyn, llaeth a halen yn barod ac y mae'r siop yn disgwyl y bydd prinder o lysiau a bwydydd ffres yn ystod yr wythnosau nesaf. Yn y rhifyn nesaf, fe fyddwn yn cynnwys adroddiadau manwl ar effeithiau y tywydd ar ffermwyr y cylch. Digon i ddweud y tro hwn eu bod wedi dioddef yn fwy na neb, a hyd heddiw nid oes modd rhoi amcangyfrif pendant ar y nifer o ddefaid a gollwyd.

Er gwaethed yr amgylchiadau, braf oedd gweld ysbryd o ewyllys da a brawdgarwch yn amlwg ym mhobman. Gobeithio na fydd yr ysbryd hwn yn diflannu gyda'r eira.



Tynnwyd y ffotograff hwn o'r ffordd fawr ger siop Tal-y-bont gan y diweddar Ithel Jones.

Colofn Elin

Blwyddyn newydd dda i chi gyd. Gobeithio eich bod wedi cael cyfle i wario amser gyda'ch teulu a'ch ffrindiau dros yr ŵyl.

Er bod gwyddonwyr yn parhau i ymchwilio a darganfod mwy o wybodaeth am amrywiolyn diweddaraf Covid 19 sef

Omicron, mae'r neges yn glir bod angen i ni barhau i fod yn ofalus wrth gymysgu gydag eraill. Rhaid

parhau i wisgo mygydau mewn mannau cyhoeddus, i ddefnyddio diheintydd dwylo neu eu golchi'n aml, ac i wneud profion llif unffordd cyn mynd i unrhyw ddigwyddiadau, neu yn wir wrth fynd i unrhywle ble byddwch mewn cyswllt agos ag eraill. Mae hefyd yn bwysig iawn ein bod i gyd yn manteisio ar y cyfle i fynd am ein brechlyn atgyfnerthu. Mae'r rhan fwyaf o'n canolfannau brechu nawr yn cynnig gwasanaeth heb apwyntiad i bob oedolyn dros 18 oed. Ceir mwy o fanylion ar gyfryngau cymdeithasol neu wefan y Bwrdd Iechyd.

Mae nifer ohonoch wedi cysylltu â mi am newidiadau neu mewn ambell achos dorriadau yn y gwasanaethau bws cyhoeddus dros y sir. Mae yna ar hyn o bryd nifer o ffactorau sy'n effeithio ar sut mae darparwyr yn gallu cynnig gwasanaethau, ac mae'r Llywodraeth a'r Cyngor Sir yn gweithio i drio datrys y broblemau yma, ac yn gwneud hyn o fewn amgylchiadau anodd. Gobeithio bydd datrysiaid ar gael yn fuan, a byddaf yn parhau i gadw llygad ar y sefyllfa.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn parhau i gefnogi ein busnesau lleol gymaint a gallwn, wrth iddynt barhau i oresgyn y cyfnod heriol yma. Mae hyn yn gyfle da i mi ddiolch i'r rheini sydd wedi bod yn gweithio'n galed dros y blynyddoedd diwethaf yma ar y cyfryngau cymdeithasol a drwy sianeli eraill, yn ein hysbysu am fusnesau newydd i'n ardal, a hefyd yn hybu'r busnesau sydd yma o hyd. Mae'n bwysig ein bod yn eu cefnogi ar bob cyfle, ac mae pwysigrwydd siopa bwyd ac adnoddau bob dydd lleol hefyd wedi amlygu ei hun drwy'r pandemig.

Dwi'n siwr ein bod i gyd yn croesi'n bysedd wrth edrych ymlaen at flwyddyn ble rydym yn gobeithio byddwn yn gallu ailgydio ar elfennau o'n bywyd nad ydym eto wedi gallu gwneud ers amser hir. Gobeithiwn bydd modd cynnal mwy o ddigwyddiadau eto nes ymlaen yn y flwyddyn, gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron.

Cadwch yn ddiogel a gofawch am eich gilydd. Daw eto haul ar fryn.



Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad

gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612

07835 525 553

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Dan Do

Tŷ arbennig arall yn y gyfres DAN DO. Y tro yma rydym yn ymweld â thŷ o'r enw Cae Bach sydd wedi ei leoli ar y ffordd gul o Dre Taliesin tua Phentrebach a Dôl-y-bont. Rydym yng nghwmni Rob Davies a Dr. Amy Staniforth. Bosib i chi weld y tŷ yma ar y rhaglen deledu Dan Do ym mis Tachwedd pan fu Aled Sam a Mandy ar ymweliad.

A fydddech chi'n hoffi cael eich bil trydan ac yn ogystal eich biliau nwy neu olew wedi eu talu drosoch?

Nid oes angen nwy nac olew ar Gae Bach, mae'n cynhyrchu digon o drydan, na gormod o drydan fel bod y perchnogion yn gallu gwerthu'r hyn sydd dros ben i gwmni trydan a chael eu talu am eu sbarion, fel arfer ymhell dros mil o bunnoedd y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae nifer o dai gyda phaneli solar yn nhalgylch Papur Pawb ond maent wedi eu haddasu i gynhyrchu trydan drwy'r paneli tra bod Cae Bach wedi ei adeiladu o'r seiliau fyn yn arbennig ar gyfer bod yn hunan-gynhaliol; gelwir tŷ tebyg yn *passivhaus* a hwn oedd y cyntaf yng Ngheredigion. Fe'i adeiladwyd i'r fath safon fel bod dŵr poeth y tŷ a'r gwres yn aros ar y tymheredd dewiswyd, 20 gradd i'r aer, ddydd a nos drwy gydol y flwyddyn. Gellir sicrhau'r gwres drwy ddefnyddio gwres tan-ddaear fel yn y tŷ yma neu gwres o'r awyr fel yn nhy eu cymdogion. Nid yw'r tŷ yn ddibynnol ar ddim arall i fod yn gyfforddus, dim nwy, olew, glo, pren etc mae'n *passiv*. Byddai ychwanegu hyd yn oed y gwres lleiaf o unrhyw fath yn gwneud y tŷ yn annioddefol o boeth – mae'n dŷ *passiv* ac yn berffaith heb ymyrraeth.

Y cam cyntaf wrth adeiladu oedd tyllu i ddyfnder o leiaf un metr i gladdu llathenni di-ri o bibellau sy'n defnyddio gwres llaith tan-ddaear i dwymo'r dŵr fydd ynddyn nhw. Adeiladwyd y tŷ ar rafft o bolisteirin deg modfedd o drwch i gadw oerfel y pridd rhag codi i'r tŷ. Ar ben hyn mae trwch o goncrit gyda'r pibellau sy'n dechrau yn y ddaear tu allan nawr yn dod mewn ac yn y concrit. Mae hyn yn achosi'r llawr tu mewn, sydd yn goncrit wedi ei bolisio i sglein, i fod yn gynnes i gerdded arno a choda'r gwres yma i'r llofft lle does dim angen gwres o gwbl.

Defnyddiwyd y system o wres dan-llawr yn yr ysgolion adeiladodd Sir Aberteifi yn 80au'r ond yn gweithio ar drydan.

Ffram bren o wneuthuriad a thrwch arbennig yw'r waliau gyda ffenestri a drysau gwydr tryphlyg o Awstria. Ond yr hyn sy'n insiwleiddio'r tŷ yw'r

Dathlu'r Wyl yn Eglwys-fach

Yn Eglwys Sant Mihangel, cynhaliwyd dau achlysur pleserus dros ben yn ystod yr Wyl. Ar Ddydd Sadwrn Rhagfyr 4ydd, ar ôl llawer o waith paratoi gan yr aelodau, cafwyd Ffair Nadolig, gyda chrefftau lleol o bob math a siawns i brynu anrhegion Nadolig yno. Cafwyd ymweliad pwysig gan Siôn Corn, a'r plant a'r bobl hŷn wrth eu bodd! Mwynhawyd cymdeithasu dros baned a mins peis. Gwnaed cyfanswm teilwng o £360 o elw at yr Eglwys.

Ers llawer blwyddyn bellach, mae gwasanaeth o 4 Carol yng ngolau kannwyll wedi bod yn boblogaidd iawn. Eleni, ar brynhawn Sul, 19fed o Ragfyr, bu yn llwyddiant mawr eto. Cymerwyd y gwasanaeth gan Ddeacon newydd Deoniaeth Bro Padarn, sef Fran Croxon-Hall, a'n swynodd ni, a mawr oedd ein mwynhad yn ogystal wrth wrando ar ei llais canu godidog.

Mae'r ardal yma yn lwcus iawn o Gareth Ward, cyd-berchennog Tŷ Bwyta Ynyshir, sydd bob amser yn gefnogol i weithgareddau'r pentref ac fel arfer cafodd pawb fynd yno o'r gwasanaeth i fwynhau gwin cynnes a mins peis cyn troedio am adre. Llongyfarchiadau i'r bwyty ar gael ei ddewis yn *Dŷ Bwyta Gorau Cymru* yn ddiweddar.



trwch ychwanegol o ddeunaw modfedd i'r waliau ar y tu fas. Llenwyd y bwllch yma gyda seliwlos, papur wedi ei drin a'i bwmpio mewn dan bwysedd. Yr hyn welwn ni wrth fynd heibio yw gorchydd o blanciau cedrwydd naturiol sydd, dros y naw blynedd wedi eu llosgi gan yr haul i'w liw arian. Y syndod yw bod y to yr un trwch a'r waliau ac felly does dim oerfel yn gallu treiddio mewn na gwres dianc allan a dyna hanfod tŷ *passiv*. Yr hyn sydd yn gwneud y tŷ'n iach yw system o awyru sy'n dosbarthu'r gwres o'r gegin a'r ystafell ymolchi yn gyfartal i'r ystafelloedd eraill ac felly yn osgoi llaithder.

Ar y to mae llechi o Sbaen ac heblaw am y rhain a'r ffenestri o Awstria mae pob dim oedd yn bosib darganfod yng Nghymru yn dod o Gymru gan gynnwys gweithwyr lleol. Gan fod adeiladu y fath dŷ yn brofiad newydd i bawb roedd rhaid iddyn nhw fod yn hyblyg ac yn fodlon gwrando ar gyfarwyddiadau manwl wrth i

bawb ennill profiadau newydd a dysgu o'r profiadau hynny. Dim ond canmoliaeth sydd gan Rob ac Amy i'r gweithwyr lleol bodlon a orffennodd y gwaith ar amser ac o fewn cyllid.

Onid dyma'r safon o dŷ dylid adeiladu y dyddiau yma gyda'r acen fwyfwy ar ein hamgylchedd? Petai deddf gwlad yn mynnu ar hanner y safonau mae Amy a Rob wedi defnyddio byddem ar y ffordd i sicrhau dyfodol gwell i'n plant a phlant ein plant. Er yr holl adeiladau newydd gwelir wrth deithio'r wlad dim ond un tŷ tebyg y gŵyr y ddau amdano yn y canolbarth ac mae hwnnw yn Llanwrin.

Dyma'r ffordd ymlaen ond does dim llawer yn fodlon teithio'r ffordd hon. Eto.

Passivhaus, gair Almaeneg, yw'r term a ddefnyddir i dŷ sydd yn cyfrannu nesaf peth i ddim at lygredd o unrhyw fath.

Gweithia Rob ac Amy o Gae Bach, Rob, o Birminham, yn artist, a gwelwyd ei waith ym Mapur Pawb sawl blwyddyn yn ôl, a gweithia Dr. Amy, a aeth i Ysgol Llanfair Caereinion, yn llyfrgelloedd rhan amser ein prifysgol a hi yw cynrychiolydd Cymru ar CILIP.

Rh H

Merched y Wawr Rhanbarth Ceredigion

Diolch i gefnogaeth ariannol Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, mae Merched y Wawr Rhanbarth Ceredigion yn bwriadu torri tir newydd yn Eisteddfod Genedlaethol, Tregaron yn 2022.

Mae Gwlan Ddoe a Heddiw yn brosiect rhanbarthol gan 42 o ganghenau Merched y Wawr a Chlybiau Gwawr ar draws Ceredigion i helpu eu cymuned i addasu, adfer a ffynnu yn y cyfnod ansicr hwn.

Mae'r arian yn eu galluogi i gyflogi tîm o arbenigwyr ym maes ymgysylltu a chofnodi i arwain y gwaith trwy ddefnyddio testun cyfarwydd i sbarduno trafodaeth ac annog unigolion o allu, oed a chefnidroedd gwahanol i dorri tir newydd. Bwriedir hyfforddi unigolion ar sut i ddefnyddio technoleg fodern ac uwchsgilio unigolion ar sut i greu a golygu ffilmiau / blogiau byrion. Cesglir y cyfan ar ffurf ffilm ac arddangosfa i'w harddangos yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022.



James yn ceisio duyn perswâd ar bobl bod curw yn anrheg perffaith i'r 'Dolig!'

Cletwr

Mae cyfnod mwyaf prysur y flwyddyn yn Cletwr wedi dod i ben a diolch yn fawr iawn i'n staff, ein gwirfoddolwyr a'n cwsmeriaid am eu gwaith a'u cefnogaeth. Edrychwn ymlaen nawr at flwyddyn newydd a fydd (gobeithio) yn well na'r ddwy flynedd flaenorol i ni i gyd. Wrth gwrs, mae rhai cyfyngiadau oherwydd bod y Gofid Mawr dal mewn grym ond mae'r siop a'r caffi ar agor fel arfer. Oherwydd bod lle yn gyfyng y tu mewn, o bryd i'w gilydd bydd y caffi ar gau yn gynnar er mwyn cael digwyddiad yn y lle. Bydd hyn yn digwydd ar b'nawn Ionawr 13eg a 19eg oherwydd digwyddiad gyda Chyfeillion Amgueddfa Ceredigion.

Ar ddechrau mis Rhagfyr cawsom ffair grefftaw lwyddiannus iawn eto, oedd yn cynnig cyfle i bobl brynu anrhegion a chefnogi busnesau lleol ar yr un pryd. A diolch i'r bandiau am adloniant gwyh - Phil Wheeler a'i Gyfeillion a band ifanc newydd "Bow Street Station".

Mae'r dyddiadur digwyddiadau yn dechrau llenwi, er y cyfyngiadau. Ar 26ain Ionawr fe fydd awdur lleol, Geraint Roberts, yn rhoi darlenniadau o'i lyfr newydd, A Time of Goodbyes, ac yn llofnodi copiâu. Bydd mynediad am ddim ond rhaid bwcio lle trwy docyn. Ewch i Facebook am ragor o fanylion. Rydym hefyd wedi ailgychwyn ein cyfres o weithdai cyfrifiadurol gyda sesiwn ar sut i ddefnyddio Google Docs.

Os ydych chi'n digwydd bod yn y caffi, cymerwch amser i edrych ar yr arddangosfa newydd yn yr Oriel - "Ymylon Amser" - sef lluniau o lefydd gan Jonathan Clarke.

Ydych chi'n defnyddio olew yn eich system gwres canolog? Ydych chi'n aelod o Glwb Clyd Cletwr? Mae Clwb Clyd yn grŵp prynu olew am ddisgownt. Yn ystod 2021 fe wnaethon ni arbed dros £5000 i'n haelodau! Fel arfer rydym yn cael disgownt o tua 4-5c/litr. Os ydych chi am ymuno, e-bostiwch cosy@cletwr.com gyda'ch manylion a'ch anghenion. Bydd yr archeb nesaf ar 28ain o Ionawr.

Beth arall sy'n bwysig ym mis Ionawr? Gwneud marmalêd wrth gwrs! Mae orenau chwerw Seville bellach yn y siop, ond dim ond am ychydig wythnosau, felly dewch yn llw!

Darlenniadau a llofnodi'r llyfr gan awdur o Ceredigion 'A Time of Goodbyes'

Rhaid rhagarchebu drwy Tocyn

26.01.2022

19.30 - 21.00

01970 832 113



events@cletwr.com

Cletwr

CFfl Tal-y-bont a'r Cylch



Ar nos Fawrth, 14 Rhagfyr, aeth criw CFfl Tal-y-bont i ganu carolau gan godi bron i £1,400. Swm arbennig iawn am un noson o ganu! Bydd yr arian a godwyd yn mynd tuag at Ambiwylans Awyr Cymru a CFfl Ceredigion.

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Cymorthdaliadau

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth Gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol. Dylid anfon ceisiadau ynghyd a chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:

Y Clerc, Cyngor Cymuned Llangynfelyn, Blaenddol,
Tre'r-ddol, Machynlleth, Powys SY20 8PL

Erbyn diwedd Ionawr 2022 fan bellaf.

Y Gair Olaf



Ysgrifennu'r Gair Olaf ar gyfer Papur Pawb cyntaf 2022. Mae'r adeg hon o'r flwyddyn bob amser yn fyfyrliol; mwynhau'r Nadolig, croesawu'r Flwyddyn Newydd a chynllunio ar gyfer y misoedd o'n blaenau. Hyd yn oed yn nhywyllwch mis Ionawr rwy'n ymwybodol bod y dyddiau eisoes yn mynd ychydig yn hirach, gan edrych ymlaen at y Gwanwyn.

Rydym yn nodi newid y tymhorau yn ein teulu trwy gadw gwenyn a'r tasgau sydd angen eu cyflawni dros yr Ŵyl yw gwirio storfeydd bwyd y cychod gwenyn - 'hefting' (teimlo pwysau'r cwch gwenyn) a chymryd cipolwg cyflym i weld sut mae'r gwenyn. Nid ydym wedi gweld heidiau gaeaf mor egniol yn ystod y 30+ mlynedd o gadw gwenyn yn Tan y Cae â'r rhai a welwyd yr wythnos ddiwethaf - mae wedi bod mor fwyn. Mae'n ymddangos bod hyn yn arwydd arall o newid hinsawdd, a gobeithiwn y gall y gwenyn addasu i beth bynnag a ddaw ar eu traws yn sgil cynhesu byd-eang.

Mae gwenyn mêl yn gweld eu cyfle bob amser - os yw'r tywydd yn dda - y tymheredd yw'r prif ffactor - a bod neithdar neu baill ar gael, byddant yn ei gynaeafu. Yn gynyddol, nid yw'r amodau i wneud hyn yn gyfyngedig i fisoedd y gwanwyn a'r haf yn unig. Mae Mam bellach yn wenywraig yn ei 70au hwyr ac rwy'n meddwl tybed sut brofiad fydd gweithio gyda'r gwenyn a'r tymhorau cyfnewidiol pan fyddaf i ei hoedran hi.

Fy nymuniad yw y bydd gwenyn mêl (a pheillwyr eraill) yn gallu ymateb yn gadarnhaol i newidiadau hinsoddol, a gobeithiaf hefyd y byddwn yn parhau i gael hyd i ffyrdd o wneud yr un peth. Gan ddymuno'r gorau i chi yn 2022 - Blwyddyn Newydd Dda!

Helen Ovens

Dathlu'r Nadolig



Megan Mai, Cadeirydd Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr, ar fin cynnau goleuadau'r Neuadd Goffa



Ffenestr addurnedig Yr Hen Siop 'Sgidiau



Rhyfeddu at y goleuadau!



Y Goeden Nadolig ar y Patsyn Glas



Goleuadau Bont-goch



Ffenestri calendr adfent y pentref

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

LLAETH LLEOL ORGANIG
ar gael yn y
Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth

www.llaethjenkinsmilk.co.uk
07813 827 712
@cwtshllaeth



Hefyd ar gael yn
Cletwr,
Tre'r Ddol

Jenkins, Cerrigaranau Uchaf,
Talybont

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch



Nos Iau, 16 Rhagfyr a ninnau ar drothwy'r Nadolig, addas iawn oedd testun sgwrs ein gŵr gwadd, Rhodri Francis, sef hen deganau. Mae Rhodri'n swyddog gyda Cered Ceredigion ac roedd wedi casglu amrywiaeth o hen deganau o Amgueddfa Ceredigion i'w dangos i ni. Fe lifodd yr atgofion yn ôl wrth i ambell degan ddal ein llygaid a bu sgwrsio brwd rhwng yr aelodau wrth i ni ddisgrifio a chymharu ein Nadoligau pan oeddem yn blant (flynyddoedd lawer yn ôl)!

Roedd rhai o'r aelodau hefyd wedi dod ag ambell i hen degan o'u plentynod, yn ddoliau a thegan meddal gyda rhai dros 70 oed ac yn dal mewn cyflwr syndod o dda. Mwynhawyd paned a mins pei cyn troi am adre.

Ar nos Lun, 20 Rhagfyr cafodd yr aelodau gyfle i ymuno'n rhithiol mewn noson a drefnwyd gan Ranbarth Ceredigion o Ferched y Wawr, yn dwyn y teitl 'Cracyr Nadolig'.

Gweithio gyda phlant bach er budd yr iaith Gymraeg

A fydddech chi'n mwynhau cyflwyno'r Gymraeg i blant bach eich cymuned leol gan gadw'r iaith yn fyw yn eich ardal? Mae 'na lawer o gyfleoedd ar gael i drio am swyddi yn eich Cylchoedd Meithrin lleol.

Mae gweithio mewn Cylch Meithrin gyda phlant 2-5 oed yn gallu rhoi boddhad mawr i chi wrth weld y plant yn siarad Cymraeg am y tro cyntaf a rhoi hyder i'w rhieni i'w gyrru ymlaen i Addysg Gymraeg. Gallwn hefyd eich cefnogi i gael hyder i ail-gydio yn y Gymraeg os nad ydych wedi cael cyfle i'w defnyddio yn aml ers i chi adael yr ysgol.

Trwy weithio mewn Cylch Meithrin byddwch yn cyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Os hoffech ystyried newid swydd, yna mae gennym gynlluniau hyfforddi amrywiol i'ch helpu i ennill cymhwyster addas tra'n gweithio.

I glywed mwy am ein holl swyddi, ewch i'n gwefan – www.meithrin.cymru/swyddi

Am sgwrs pellach mae croeso i chi gysylltu gyda Leanne Marsh, drwy ffonio 01970 639639 neu e-bostio leanne.marsh@meithrin.cymru.

Cofion caredig,
Dr Gwenllian Lansdown Davies
Prif Weithredwr Mudiad Meithrin



Mae Cylch Meithrin Machynlleth yn chwilio am berson addas i lenwi'r swydd isod.

Gweithiwr 1:1 a Chynorthwy-ydd

Cymhwyster NVQ Lefel 2 neu uwch mewn CCLD

9 awr (13:00—16:00)

Dydd Mawrth-Dydd Iau yn ystod y tymor yn unig

lonawr-Mawrth

(i ddechrau, gyda'r posibilrwydd o ymestyn)

Am wybodaeth pellach neu i wneud cais am y swydd, cysylltwch â

Caryl - Edwards C705@hwbcymru.net

neu **Tamsin - Tecd** 29@hotmail.com



Alun Davies Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA

E alun.davies142@btinternet.com

Eisiau gweithio gyda phlant bach?



Mae nifer o wahanol swyddi ar gael mewn Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd Mudiad Meithrin.

Dyma gyfle i chi gyflwyno'r Gymraeg i blant bach yn eich ardal chi. Byddwch yn cael pleser o'u gweld yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus gan wybod eich bod chi wedi cyfrannu at hynny!

Am wybodaeth am ein holl swyddi ewch i'n gwefan –

www.meithrin.cymru/swyddi

Angen cymhwyster gofal plant?

Mae gennym nifer o gyrsiau ar gael i'ch helpu –

www.meithrin.cymru/prentisiaeth

Am sgwrs pellach: Leanne.marsh@meithrin.cymru
neu ffoniwch 01970 639639



CHWARAEON



Dyma 'Toucans' Tal-y-bont, sef y tîm pêl-droed lleol ar gyfer plant dan 8 oed, yn eu crysau newydd a noddwyd gan gwmni Atebol.

Gruff

Bydd y seiclwr enwog o Dal-y-bont, Gruff Lewis, yn gwisgo lliwiau newydd eleni gan iddo arwyddo cytundeb gyda thîm proffesiynol 'WiV SunGod'. Edrychwn ymlaen at ei weld yn cystadlu yn y 'Tour of Britain' unwaith eto ym mis Medi ac mewn rasys eraill ar draws Ewrop.



Carolau Clasurol

Dyma'r olygfa yn ysgubor/garej/sied/gweithle Rhoslan i wasanaeth o *Classic Carols* wythnos cyn y Nadolig. *Classic*, gan taw i aelodau o'r *Classic Car Club* roedd y gwahoddiad yn ogystal ag i gymdogion agosaf Janet a Stephen Owen perchnogion Rhoslan, aelodau selog o'r clwb ceir. Am nad oedd llawer o wres mewn clamp o ystafell anogwyd ni i wisgo digon o ddillad cynnes a dod â chadeiriau i ni'n hunain.

Yn cyfeilio i'r cantorion roedd grŵp o offrynnau pres dan ofal Alan a Heather Philips. Roedd y casgliad i noddi sawl plentyn roedd y diweddar Rhidian Hughes, ffrind Alan a chyn bennaeth Ysgol Craig-yr-wylfa, Y Borth wedi cymryd dan ei adain pan oedd yn byw yn Guatamala. Brwd oedd y canu er mwyn cadw'n dwym, pawb yn cadw pellter parchus a chanu tu ôl mwgwd.

Rhwng y carolau clasurol roedd darlenniadau o'r Beibl yn adrodd stori'r geni. Yn ystod anerchiad am daith Mair a Joseff cafwyd adroddiad am daith, mewn *classic car* wrth gwrs, roedd un aelod o'r clwb wedi gwneud i Gonwy rhywbryd yn y gorffennol pan bu raid iddo droi am adre yn hwyr y nos am 'nad oedd lle yn y llety' iddo! I ddifyrru perchnogion hen geir cafwyd rhest o'r problemau gododd a'i achosodd i fod yn hwyr.

Ar y diwedd roedd cyfle i gwrdd ag aelodau o'r clwb dros wydraid o win poeth a danteithion eraill i'n rhoi ni ar ben ffordd ar gyfer y daith adre ar noson eithriadol o oer dan wybren serenog a lleuad llawn.

Digwyddiad hyfryd i'n paratoi ar gyfer y Nadolig ond yr unig *classic cars* i'w gweld oedd y rhai yn y llun, dan do, doedd dim un yn y maes parcio!!

STORFA HUNAN FYNEDIAD



UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI



**MONITRO DIOGELWCH
24 AWR**

Storfa Cartref & Busnes

Bocsos a Bubblewrap

Symud gyda **Wales REMOVALS**

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703592

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

MID WALES STORAGE

www.midwalesstorage.co.uk

RALI TYNGED YR IAITH:

NID YW CYMRU AR WERTH

**2yp, DYDD SADWRN
19 CHWEFROR 2022
ABERYSTWYTH**

**Ymgynnull ger Pont Trefechan cyn
gorymdeithio i swyddfeydd Llywodraeth
Cymru.**

Manylion pellach:
post@cymdeithas.cymru



Gwasanaeth argraffu diguro

Holwch Paul
am bris!
paul@yloffa.com
01970 832 304



Talybont
Ceredigion
SY24 5HE
www.yloffa.com